WALES AUDIT OFFICE
SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU

# Ardystio grantiau a ffurflenni 2010-11

## Cyngor Sir Ynys Môn

Dyddiad: Mehefin 2012

Awdur:PricewaterhouseCoopers LLP

# Statws yr adroddiad

**Swyddfa ArchWilio Cymru**
24 Heol y Gadeirlan, Caerdydd, CF11 9LJ
Ffon: 029 2032 0500
Ffacs: 029 2032 0600
E-bost: info@wao.gov.uk
Gwefan: www.wao.gov.uk

## Statws yr adroddiad

Paratowyd y ddogfen hon at ddefnydd mewnol Cyngor Sir Ynys Môn fel rhan o'r gwaith a gyflawnir yn unol â swyddogaethau statudol, y Cod Ymarfer Archwilio a'r Datganiad o Gyfrifoldebau a gyhoeddwyd gan Archwilydd Cyffredinol Cymru.

Nid oes unrhyw gyfrifoldeb ar Swyddfa Archwilio Cymru (yr Archwilydd Cyffredinol a'i staff) na'r archwilydd penodedig, lle y bo'n gymwys, mewn perthynas ag unrhyw aelod, cyfarwyddwr, swyddog na chyflogai arall yn unigol, nac i unrhyw drydydd parti.

Os gwneir cais am wybodaeth y gallai'r ddogfen hon fod yn berthnasol iddi, tynnir sylw at y Cod Ymarfer a gyhoeddwyd o dan adran 45 o Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000. Mae Cod adran 45 yn nodi'r arfer a ddisgwylir gan awdurdodau cyhoeddus wrth ymdrin â cheisiadau, yn cynnwys ymgynghori â thrydydd partïon perthnasol. Mewn perthynas â'r ddogfen hon, mae Archwilydd Cyffredinol Cymru (a, lle y bo'n gymwys, ei archwilydd penodedig) yn drydydd parti perthnasol. Dylid anfon unrhyw ymholiadau ynglŷn â datgelu neu ailddefnyddio'r ddogfen hon i Swyddfa Archwilio Cymru yn infoofficer@wao.gov.uk.

# Cynnwys

Crynodeb 4

Penawdau 5

# Crynodeb

1. O dan Baragraff 20 o Atodlen 8 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006, bydd yr Archwilydd Cyffredinol, os yw'n ofynnol gan gorff llywodraeth leol neu gorff arall sy'n derbyn grant, yn trefnu i ardystio hawliadau a ffurflenni (y cyfeirir atynt fel hawliadau grant o hyn ymlaen).
2. Nod ein gwaith oedd ardystio hawliadau unigol ac ateb y cwestiwn:

   'A oes gan Gyngor Sir Ynys Môn (yr Awdurdod) drefniadau diginol ar waith i secrhau y cynhyrchir hawliadau grant cydgysylltiedig, cywir, amserol a ddogfennwyd yn gywir?
3. Rydym wedi cwblhau'r gwaith o archwilio amrywiol hawliadau grant a down i'r casgliad fod perfformiad yr Awdurdod wedi gwella o ran cyflwyno hawliadau ar amser. Nodwyd hefyd fod gwelliant sylweddol wedi'i weld o ran ansawdd papurau gwaith ac amseroldeb yr ymatebion a gafwyd i ymholiadau archwilio sy'n ymwneud â hawliadau Cymunedau yn Gyntaf. Fodd bynnag, mae lle i wella'r trefniadau sydd ar waith ar gyfer cynhyrchu a chyflwyno hawliadau grant o hyd, yn enwedig mewn perthynas â nifer y cymwysterau a nodwyd. Rydym yn parhau i weithio gyda'r Awdurdod i gyflawni'r gwelliannau hyn ar gyfer 2011-12. Mae ein casgliad ar gyfer 2010-11 yn seiliedig ar y canfyddiadau cyffredinol canlynol:

- Cyflwynodd yr Awdurdod 10% o'r hawliadau grant ar ôl y terfyn amser ar gyfer eu cyflwyno, o gymharu â 66% ar gyfer 2009/10.
- Mae cyfanswm y ffi archwilio ar gyfer hawliadau Cymunedau yn Gyntaf wedi gostwng o £26.5K ar gyfer 2009/10 i £12K ar gyfer 2010/11. Roedd y gostyngiad hwn yn deillio'n rhannol o ganlyniad i leihad yn nifer yr hawliadau yr oedd angen eu harchwilio, o naw i chwech, ynghyd â gwelliant sylweddol yn ansawdd y papurau gwaith a ddarparwyd yn ystod yr archwiliad.
- Fodd bynnag, ni pharatoir papur gwaith cynhwysfawr cyn ymgymryd â'r gwaith o archwilio'r rhan fwyaf o'r hawliadau.
- Roedd 50% o'r hawliadau a ardystiwyd yn destun llythyr amodi (48% yn 2009/10).
- Cafwyd anawsterau sylweddol o ran dod o hyd i wybodaeth am gontractau.
- Roedd ansawdd yr hawliad Budd-dal Tai a Budd-dal Treth Gyngor ar gyfer 2010/11 a gyflwynwyd i'w archwilio yn wael. Bydd angen gwneud nifer fawr o addasiadau ar ôl cwblhau'r gwaith archwilio. Ardystiwyd hawliad 2009/10 ym mis Rhagfyr 2011. Effaith gyffredinol yr addasiadau archwilio oedd cynnydd o £42K yn y cymhorthdal a oedd yn daladwy i'r Awdurdod. Mae'r gwaith o archwilio hawliad 2010/11 yn mynd rhagddo.

# Crynodeb

4. Rydym wedi ardystio cyfanswm o 28 o hawliadau ar gyfer 2010/11 a thri hawliad ar gyfer 2009/10 (mae'r gwaith o archwilio pedwar hawliad arall yn mynd rhagddo) am gyfanswm cost archwilio o £170,197.

# Penawdau

| | |
|---|---|
| **Cyflwyniad a chefndir** | **Mae'r adroddiad hwn yn crynhoi canlyniadau'r gwaith o ardystio hawliadau a ffurflenni grant yr Awdurdod ar gyfer 2010-11**<br>• Fel archwilwyr penodedig yr Awdurdod, gofynnir i ni, ar ran Archwilydd Cyffredinol Cymru, ardystio hawliadau grant a wnaed gan yr Awdurdod.<br>• Ar gyfer 2010-11, gwnaethom ardystio 28 o hawliadau. Ardystiwyd tri hawliad ar gyfer 2009/10. Rydym wedi llunio'r adroddiad hwn er mwyn cynorthwyo i nodi gwelliannau pellach posibl i'r broses. |
| **Hawliadau yn dod i law yn amserol** | • Dengys ein dadansoddiad mai dim ond 87 y cant o'r hawliadau a dderbyniwyd gennym erbyn terfyn amser yr Awdurdod. |
| **Canlniadau'r gwaith ardystio** | • Gwnaethom gyhoeddi tystysgrifau diamod ar gyfer 14 o hawliadau.<br>• Roedd angen rhoi barn amodol mewn 14 o achosion.<br>• Mae'r dystysgrif archwilio yn weddill ar gyfer pedwar hawliad tra rydym yn aros am ragor o wybodaeth gan yr Awdurdod a thra bod y gwaith archwilio yn cael ei gwblhau. |
| **Addasiadau archwilio** | • Roedd angen gwneud addasiadau i saith o grantiau a ffurflenni'r Awdurdod o ganlyniad i waith ardystio'r archwilydd. |
| **Trefniadau'r Awdurdod** | • Mae lle i wella trefniadau'r Awdurdod ar gyfer paratoi ei grantiau a'i ffurflenni. |
| **Ffioedd** | • £170,197 yw ein ffi gyffredinol ar gyfer ardystio grantiau a ffurflenni yn 2010-11. |